# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**2016 dccc 1**

## RHAN 9 E+W

TERFYNU ETC. CONTRACTAU MEDDIANNAETH

## PENNOD 7 E+W

TERFYNU CONTRACTAU SAFONOL CYFNOD PENODOL

*Cymal terfynu'r landlord*

### 194 Cymal terfynu'r landlord E+W

(1) Caiff contract safonol cyfnod penodol [F1 sydd o fewn is-adran (1A)] gynnwys teler sy'n galluogi'r landlord i derfynu'r contract cyn diwedd y cyfnod penodol drwy roi hysbysiad i ddeiliad y contract y bydd yn rhaid iddo ildio meddiant o'r annedd ar ddyddiad a bennir yn yr hysbysiad.

[F2 (1A) Mae contract safonol cyfnod penodol o fewn yr is-adran hon—

(a) os yw wedi ei wneud am gyfnod o ddwy flynedd neu ragor, neu

(b) os yw o fewn Atodlen 9C (pa un a yw wedi ei wneud am gyfnod o ddwy flynedd neu ragor ai peidio).]

(2) Mae cyfeiriadau yn y Ddeddf hon at gymal terfynu'r landlord, mewn perthynas â chontract safonol cyfnod penodol, yn gyfeiriadau at y teler a grybwyllir yn is-adran (1).

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn a. 194(1) wedi eu mewnosod (7.6.2021) gan Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021 (asc 3), **aau. 11(1)(a)**, 19(3)

**F2** A. 194(1A) wedi ei fewnosod (7.6.2021) gan Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021 (asc 3), **aau. 11(1)(b)**, 19(3)

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/12/2022.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Croes Bennawd: Cymal terfynu'r landlord yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 14 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

**Addasiadau (ddim yn newid testun)**

**C1** Rhn. 9 wedi ei eithrio (1.12.2022) gan 2004 c. 34, a. 33(c) (fel y mewnosodwyd gan Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/1166), rhlau. 1(1), **28(2)(c)**)

**C2** A. 194 wedi ei eithrio (1.12.2022) gan 2004 c. 34, a. 98A (fel y mewnosodwyd gan Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/1166), rhlau. 1(1), **28(6)**)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 194 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

**I2** A. 194 mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

## 195 Y cyfnod hysbysu byrraf a ganiateir E+W

(1) Ni chaiff y dyddiad a bennir mewn hysbysiad o dan gymal terfynu'r landlord fod yn llai na **[**[F3]chwe mis**]** ar ôl y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad i ddeiliad y contract.

**[**[F4](2) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract safonol cyfnod penodol, ac eithrio contractau safonol cyfnod penodol—

(a) nad ydynt yn cynnwys cymal terfynu'r landlord, neu

(b) sydd o fewn Atodlen 8A (pa un a ydynt yn cynnwys cymal terfynu'r landlord ai peidio).**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F3** Geiriau yn a. 195(1) wedi eu hamnewid (7.6.2021) gan Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021 (asc 3), **aau. 2(2)(a)**, 19(3)

**F4** A. 195(2) wedi ei amnewid (7.6.2021) gan Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021 (asc 3), **aau. 2(2)(b)**, 19(3)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 195 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

**I4** A. 195 mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

## [[F5]195A Y cyfnod hysbysu byrraf a ganiateir: contractau safonol cyfnod penodol sydd o fewn Atodlen 8A E+W

(1) Os yw contract safonol cyfnod penodol o fewn Atodlen 8A, ni chaiff y dyddiad a bennir mewn hysbysiad o dan gymal terfynu'r landlord fod yn llai na dau fis ar ôl y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad i ddeiliad y contract.

(2) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract safonol cyfnod penodol sydd—

(a) yn cynnwys cymal terfynu'r landlord, a

(b) o fewn Atodlen 8A.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F5** A. 195A wedi ei fewnosod (7.6.2021) gan Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021 (asc 3), **aau. 2(3)**, 19(3)

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/12/2022.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Croes Bennawd: Cymal terfynu'r landlord yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 14 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** A. 195A mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

## 196 [F6Cyfyngiad ar ddefnyddio cymal terfynu'r landlord tan ar ôl 18 mis cyntaf meddiannaeth] E+W

(1) Ni chaiff y landlord roi hysbysiad o dan gymal terfynu'r landlord cyn diwedd y cyfnod o [F718 mis] sy'n dechrau â diwrnod meddiannu'r contract.

F8(2) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

F9(3) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

(4) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract safonol cyfnod penodol, ac eithrio contractau safonol cyfnod penodol—

(a) nad ydynt yn cynnwys cymal terfynu'r landlord, neu

(b) sydd o fewn Atodlen 9 (pa un a ydynt yn cynnwys cymal terfynu'r landlord ai peidio),

F10...

**Diwygiadau Testunol**

**F6** Pennawd A. 196 wedi ei amnewid (7.6.2021) gan Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021 (asc 3), **aau. 5(2)**, 19(3)

**F7** Geiriau yn a. 196(1) wedi eu hamnewid (7.6.2021) gan Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021 (asc 3), **aau. 5(1)(a)**, 19(3)

**F8** A. 196(2) wedi ei hepgor (7.6.2021) yn rhinwedd Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021 (asc 3), **aau. 5(1)(b)**, 19(3)

**F9** A. 196(3) wedi ei hepgor (7.6.2021) yn rhinwedd Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021 (asc 3), **aau. 5(1)(b)**, 19(3)

**F10** Geiriau yn a. 196(4) wedi eu hepgor (7.6.2021) yn rhinwedd Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021 (asc 3), a. 19(3), **Atod. 6 para. 18**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** A. 196 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

**I7** A. 196 mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

## [F11197 Cyfyngiadau ar y defnydd o gymal terfynu'r landlord: torri rhwymedigaethau statudol E+W

Mae Atodlen 9A yn gosod cyfyngiadau ar roi hysbysiad o dan gymal terfynu'r landlord, sy'n ymwneud â thorri rhwymedigaethau statudol penodol.]

**Diwygiadau Testunol**

**F11** A. 197 wedi ei amnewid (7.6.2021) gan Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021 (asc 3), **aau. 6(4)**, 19(3)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I8** A. 197 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/12/2022.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Croes Bennawd: Cymal terfynu'r landlord yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 14 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

**I9** A. 197 mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

### [F12 198 Cyfyngiad ar y defnydd o gymal terfynu'r landlord yn dilyn hawliad meddiant dialgar E+W

(1) Mae is-adran (2) yn gymwys pan fo—

(a) landlord (ar ôl rhoi hysbysiad i ddeiliad contract o dan gymal terfynu'r landlord) wedi gwneud hawliad meddiant ar y sail yn adran 199, a

(b) y llys wedi gwrthod gwneud gorchymyn adennill meddiant gan ei fod o'r farn bod yr hawliad yn hawliad dialgar (gweler adran 217).

(2) Ni chaiff y landlord roi hysbysiad arall o dan gymal terfynu'r landlord i ddeiliad y contract cyn diwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau â'r diwrnod y gwrthododd y llys wneud gorchymyn adennill meddiant.

(3) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract safonol cyfnod penodol sydd â chymal terfynu'r landlord.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F12** A. 198 wedi ei amnewid (7.6.2021) gan Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021 (asc 3), **aau. 9(3)**, 19(3)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I10** A. 198 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

**I11** A. 198 mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

### 199 Adennill meddiant E+W

(1) Os yw'r landlord yn rhoi hysbysiad i ddeiliad y contract o dan gymal terfynu'r landlord, caiff y landlord wneud hawliad meddiant ar y sail honno.

(2) Mae adran 215 yn darparu bod yn rhaid i'r llys, os yw wedi ei fodloni bod y sail wedi ei phrofi, wneud gorchymyn adennill meddiant o'r annedd, oni bai bod adran 217 (troi allan dialgar) yn gymwys (ac yn ddarostyngedig i unrhyw amddiffyniad sydd ar gael ar sail hawliau Confensiwn deiliad y contract).

(3) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract safonol cyfnod penodol sydd â chymal terfynu'r landlord.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I12** A. 199 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

**I13** A. 199 mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

### 200 Cyfyngiad ar adran 199 E+W

(1) Ni chaiff y landlord wneud hawliad meddiant ar y sail yn adran 199—

(a) cyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad y rhoddodd y landlord i ddeiliad y contract o dan gymal terfynu'r landlord, na

(b) ar ôl diwedd y cyfnod o ddau fis sy'n dechrau â'r dyddiad hwnnw.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/12/2022.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Croes Bennawd: Cymal terfynu'r landlord yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 14 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(2) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract safonol cyfnod penodol sydd â chymal terfynu'r landlord.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I14** A. 200 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

**I15** A. 200 mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

## 201 Terfynu contract o dan gymal terfynu'r landlord E+W

(1) Os yw deiliad y contract yn ildio meddiant o'r annedd ar y dyddiad a bennir mewn hysbysiad o dan gymal terfynu'r landlord, neu cyn hynny, daw'r contract i ben ar y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad.

(2) Os yw deiliad y contract yn ildio meddiant o'r annedd ar ôl y dyddiad hwnnw ond mewn cysylltiad â'r hysbysiad, daw'r contract i ben—

(a) ar y diwrnod y mae deiliad y contract yn ildio meddiant o'r annedd, neu

(b) os gwneir gorchymyn adennill meddiant, ar y dyddiad a bennir yn unol ag adran 206.

(3) Mae'r hysbysiad yn peidio â chael effaith os **[**[F13]—

(a) yw'r landlord, cyn i'r contract ddod i ben, ac yn ystod y cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddwyd yr hysbysiad, yn tynnu'r hysbysiad yn ôl drwy roi hysbysiad pellach i ddeiliad y contract, neu

(b) cyn i'r contract ddod i ben, ac ar ôl y cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddwyd yr hysbysiad—

(i) yw'r landlord yn tynnu'r hysbysiad yn ôl drwy roi hysbysiad pellach i ddeiliad y contract, a

(ii) nad yw deiliad y contract yn gwrthwynebu mewn ysgrifen i'r tynnu'n ôl cyn diwedd cyfnod rhesymol.**]**

(4) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract safonol cyfnod penodol sydd â chymal terfynu'r landlord.

**Diwygiadau Testunol**

**F13** Geiriau yn a. 201(3) wedi eu hamnewid (7.6.2021) gan Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021 (asc 3), **aau. 8(3)**, 19(3)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I16** A. 201 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

**I17** A. 201 mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/12/2022.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Croes Bennawd: Cymal terfynu'r landlord yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 14 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.